# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy ar 13 Hydref 2004, a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar 2 Tachwedd 2004

**At Helen Mary Jones:**

Dyma fy ymateb i'ch cwestiwn am ddangosyddion datblygu cynaliadwy a godwyd yn ystod trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn am y cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy.

Mae'r gweithgor dangosyddion datblygu cynaliadwy eisoes wedi nodi'r angen am gyfres o ddangosyddion crynhoi lefel uchel fel mesur pennawd o'r cynnydd a wneir o ran datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn ychwanegol at y 12 dangosydd datblygu cynaliadwy a fabwysiadwyd gan y Cynulliad fis Mawrth 2001. Mae'r cynllun datblygu cynaliadwy diwygiedig, a fabwysiadwyd yn y Cyfarfod Llawn fis Mawrth eleni yn golygu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i'r cynnig hwnnw, ac yn dilyn hynny mae'r gweithgor dangosyddion wedi ystyried yn ofalus pa ddangosyddion crynhoi fyddai'n mesur y cynnydd orau yng Nghymru yn y meysydd canlynol: effaith y defnydd a wneir ar weddill y byd; bioamrywiaeth; lefel gyffredinol amddifadedd yng Nghymru; lefel gweithgarwch economaidd; a chynnydd economaidd gwirioneddol gan ystyried ffactorau amgylcheddol, adnoddau a lles.

Yn ddiweddar, derbyniais adroddiad ar y materion hyn gan y gweithgor. Rydw i'n dal i ystyried yr argymhellion ar hyn o bryd, ond rwy'n bwriadu ysgrifennu atoch chi a holl Aelodau'r Cynulliad ar y pwnc yn fuan.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ38300, a gyhoeddwyd gan Sue Essex, y Gweinidog Cyllid, ar 29 Hydref 2004

**At David Lloyd:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Hydref gofynnwyd cwestiwn gennych ynghylch Ymchwiliad Lyons yn ystyried y modd y mae awdurdodau'r heddlu'n cael eu hariannu. Ar y pryd dywedais nad oeddwn yn meddwl y byddai'r mater yn cael ei ystyried, ond y byddwn yn cadarnhau a oedd hynny'n wir.

Gallaf gadarnhau nad yw cylch gorchwyl yr ymchwiliad (sydd wedi ei amgáu) yn cyfeirio'n benodol at ystyried y modd y mae awdurdodau'r heddlu'n cael eu hariannu. Fodd bynnag, bydd yn edrych ar y system o ariannu llywodraeth leol, a allai effeithio ar awdurdodau'r heddlu, ond mater i Syr Michael yw penderfynu ar hyn yn ystod ei ymchwiliad.

**Cylch Gorchwyl Ymchwiliad Lyons**

Syr Michael Lyons fydd yn arwain yr ymchwiliad a bydd yn adrodd erbyn diwedd 2005 i Ddirprwy Brif Weinidog a Changhellor y Trysorlys Llywodraeth y DU.

Bydd yr ymchwiliad yn:

- ystyried yn fanwl, yn sgil yr adroddiad gan yr adolygiad cydbwysedd cyllid, yr achos o blaid newidiadau i'r system bresennol o ariannu llywodraeth leol;
- gwneud argymhellion ar unrhyw newidiadau  y mae angen eu gwneud a sut i'w rhoi ar waith; a
- derbyn tystiolaeth gan randdeiliaid.

Yn benodol, bydd yr ymchwiliad yn:

- gwneud argymhellion ar y ffordd orau i ddiwygio'r dreth gyngor, gan ystyried ailbrisio eiddo domestig a fydd yn digwydd yn y dyfodol agos;
- asesu'r achos o blaid rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol godi refeniw ychwanegol ac o blaid newid sylweddol i'r cydbwysedd cyllid presennol;
- gwneud dadansoddiad trylwyr o'r opsiynau eraill sydd gan awdurdodau lleol ar gyfer codi refeniw ychwanegol heblaw'r dreth gyngor, gan gynnwys treth incwm lleol, diwygio ardrethi annomestig a threthi a thaliadau lleol posibl eraill, yn ogystal â'r posibilrwydd o gyfuno'r opsiynau hynny; ac
- ystyried y goblygiadau ar gyfer ariannu cynulliadau rhanbarthol etholedig posibl.

Bydd yr ymchwiliad hefyd yn ystyried, pan fo'n briodol, unrhyw oblygiadau ar gyfer rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig sy'n deillio o'r argymhellion.